

ENW:

ATHRO:

# NEWIDIADAU MEWN IECHYD A MEDDYGAETH, tua 1340 hyd heddiw

## Llyfryn 2

Ymdrechion i drin a gwella salwch ac afiechyd  
Datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol



Dyddiad marciwyd	Sylwadau

**Ymdrechion i drin a gwella salwch ac afiechyd**  
**Cwestiwn Allweddol**

Sut mae ymdrechion i drin salwch ac afiechyd wedi  
gwella dros amser?

**Cynnwys**

Triniaethau taddodiadol oedd yn gyffredin yn yr oesoedd canol: barbwr-llawfeddygon, defnyddio gelenod, meddyginiaethau llysieuol

**Darllenwch p 35 -39**

(newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)

**Meddyginiaethau llysieuol**

Disgrifiwch chwedl Llyn y Fan Fach

---

---

---

---

---

---

---

---

Disgrifiwch waith Meddygon Myddfai

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

Crëwch ffeil ffeithiau am y bobl ganlynol yn dangos eu cyfraniad i driniaethau llysieuol

Arglwyddes Grace Mildmay


A large rectangular box containing 24 horizontal dotted lines, intended for a detailed response or drawing.

William Turner

A smaller rectangular box containing 3 horizontal dotted lines, intended for a brief response or drawing.









## Barbwr-llawfeddygon a defnyddio gelenod

### Enghraifft o Gwestiwn Arholiad 4

Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am ymdrechion i wella salwch ac afiechyd

Disgrifiwch rôl barbwr-llawfeddygon mewn trin salwch [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

### Band descriptors and mark allocations

	AO1 6 marks	
BAND 3	Demonstrates detailed knowledge to fully describe the issue set within the appropriate historical context.	5-6
BAND 2	Demonstrates knowledge to partially describe the issue.	3-4
BAND 1	Demonstrates limited knowledge to describe the issue.	1-2

Use 0 for incorrect or irrelevant answers.





James Lister a'r defnydd o antiseptigion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg

**Darllenwch t 55 – 57**  
(newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)


Cemegolion oedd antiseptigau oedd yn cael eu defnyddio i ddinistrio bacteria ac atal haint mewn clwyf neu friw.

Crëwch ffeil ffeithiau am Joseph Lister. Gwnewch yn siŵr ei bod yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

Pam roedd angen antiseptigion?


Y gwaith a wnaeth Lister.

Pwysigrwydd ac effaith ei waith.



A large rectangular area containing horizontal dotted lines for writing notes, with the portrait of Joseph Lister positioned on the right side.





## James Simpson a datblygu anaestetig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

**Darllenwch t 51-54** (Newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)

Sylwedd oedd anaestetig, yn aml nwy fel ether neu glorofform, a oedd yn gwneud rhywun yn anymwybodol cyn ac yn ystod llawdriniaeth. Roedd yn help i ymdopi â'r boen.

Pam fod angen anaestetigion mewn llawfeddygaeth?

---

---

---

---

---

---

---

---

Ffynhonnell A

Ar 21 Rhagfyr 1846, carwyd Frederick Churchill, bwiler 36 oed, i'r theatr lawfeddygol yn Ysbyty Coleg y Brifysgol, Llundain, i gael ei goes chwith wedi'i thorri i ffwrdd. Ef fyddai'r claf mwyaf enwog yn hanes llawfeddygaeth. Roedd llawdriniaeth Churchill yn ddi-boen, gan mai ef oedd y bod dynol cyntaf i gael llawdriniaeth fawr o dan anaestetig.

[Yr hanesydd William Armstrong, yn ysgrifennu mewn erthygl o'r enw 'Under the surgeon's knife', 1970

Pam roedd y llawdriniaeth ar Frederick Churchil yn drobynt mewn llawfeddygaeth?

---


---

---

---

---





## Marie Curie a datblygu ymbelydredd yn yr ugeinfed ganrif

### Ffeil Ffeithiau Marie Curie



Rydym yn cofio am Marie Curie am iddi ddarganfod radiwm a poloniwm, a'i chyfraniad enfawr i'r frwydr yn erbyn cancer.

Ffisegydd a chemegydd o Wlad Pwyl oedd Marie Curie ac un o wyddonwyr enwocaf ei chyfnod. Cafodd hi a'i gŵr Pierre eu gwobrwyo â Gwobr Nobel yn 1903, ac aeth ymlaen i ennill un arall yn 1911.

Ganwyd Marie Sklodowska yn Warsaw ar 7 Tachwedd 1867, yn ferch i athro. Yn 1891, aeth i Baris i astudio ffiseg a mathemateg yn y Sorbonne lle y cyfarfu Pierre Curie, Athro'r Ysgol Ffiseg. Fe briododd nhw yn 1895.

Gweithiodd y Curies gyda'i gilydd i ymchwilio i ymbelydredd, gan adeiladu ar waith y ffisegydd Almaenig Roentgen a'r ffisegydd Ffrengig Becquerel. Ym mis Gorffennaf 1898, cyhoeddodd y Curies eu bod wedi darganfod elfen gemegol newydd, poloniwm. Ar ddiwedd y flwyddyn, fe gyhoeddodd nhw ddarganfyddiad arall, sef radiwm. Dangosodd gwaith arloesol Pierre ar effeithiau radiwm ar organebau byw y gallai ddifrodi meinwe a defnyddiwyd y darganfyddiad hwn i weithio yn erbyn cancer ac afiechydon eraill. Gyda Becquerel, anrhydeddwyd y Curies â Gwobr Ffiseg Nobel yn 1903.

Daeth bywyd Pierre i ben yn 1906 pan gafodd ei daro i lawr a'i ladd gan gerbyd. Cymerodd Marie ei swydd ddysgu, gan ddod y ferch gyntaf i ddysgu yn y Sorbonne, ac ymrodd i barhau â'r gwaith yr oedden nhw wedi dechrau gyda'i gilydd. Derbyniodd ail Wobr Nobel, am Gemeg, yn 1911.

Roedd ymchwil y Curies yn hollbwysig yn natblygiad pelydrau X mewn llawfeddygaeth. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, helpodd Curie i roi offer pelydr X mewn ambiwlansys, a bu hi eu hun yn eu gyrru i'r rhengoedd blaen. Gwnaeth y Groes Goch Ryngwladol hi yn bennaeth ei gwasanaeth radiolegol a chynaliodd gyrsiau hyfforddi i gynorthwywyr ysbyty a meddygon yn y technegau newydd.

Er gwaetha'i llwyddiant, parhaodd Marie i wynebu gwrthwynebiad cryf gan wyddonwyr gwrywaidd yn Ffrainc, ac ni dderbyniodd erioed fudd ariannol sylweddol o'i gwaith. Erbyn diedd yr 1920au roedd ei hiechyd yn dechrau dirywio. Bu farw ar 4 Gorffennaf 1934 o lewcemia, a achoswyd oherwydd iddi fod yn agored i ymbelydredd ynni uchel yn ystod ei hymchwil. Roedd mech hynaf y Curies, Irene, yn wyddonydd ei hun ac enillodd hithau hefyd Wobr Nobel am Gemeg.



## Rôl Fleming, Florey a Chain gyda gwrthfotigau

**Darllenwch t 63-66** (Newidiadau  
mewn iechyd a meddygaeth)

Eglurwch y rhan a chwaraewyd yn hanes penisilin gan:

- Joseph Lister
- Alexander Fleming
- Florey a Chain
- Albert Alexander
- Llywodraeth yr UDA

Joseph Lister



Alexander Fleming

Florey a Chain




Albert Alexander



Llywodraeth yr UDA






## Barnard a llawdriniaeth drawsblannu

**Darllenwch t 68** (Newidiadau mewn  
iechyd a meddygaeth)

Lluniwch linell amser i gofnodi'r datblygiad pwysig mewn llawdriniaeth drawsblannu rhwng 1950 a heddiw.

















Syniadau meddygol yn y canol oesoedd: sêr-ddewiniaeth a damcaniaeth y pedwar gwlybwr

**Darllenwch t 3 - 6** (Newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)

Cwblhewch y tabl isod i ddangos gwybodaeth feddygol yn ystod y cyfnod canol oesol:

<b>Dull</b>	<b>Sut roedd meddygon yn defnyddio'r dull hwn i drin cleifion</b>
Siart troeth ( <i>urine</i> )	
Siart y Sidydd ( <i>Zodiac</i> )	
Damcaniaeth y pedwar gwlybwr	

Edrychwch ar y ffynhonnell isod.



Beth mae'n dangos i chi am syniadau meddygol yn y canol oesoedd?

.....

.....

.....

.....

.....

.....





Gwaith meddysgol Vesalius, Paré a Harvey yn yr unfed ganrif  
a'r bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg

**Darllenwch t14 - 18** (Newidiadau mewn  
iechyd a meddygaeth)

Lluniwch ffeil ffeithiau i Vesalius, Paré a Harvey.

Dyma un i Vesalius, isod, fel canllaw i chi.

<b>Andreas Vesalius 1514-1564</b>	
<b>Gweithredoedd</b>	<p>Daeth Vesalius yn Athro Anatomeg ym Mhrifysgol Padua yn yr Eidal.</p> <p>Gweithiodd ochr yn ochr ag arlunwyr y Dadeni Dysg yn dyrannu cyrff er mwyn deall anatomeg ddynol yn well.</p> <p>Yn 1543 cyhoeddodd ei lyfr enwog, Gwead y Corff Dynol, a oedd yn cynnwys darluniau anatomegol cywrain.</p> <p>Roedd yn amau barn Galen a thrwy ei waith dyrannu, profodd fod Galen wedi bod yn anghywir yn rhai o'i sylwadau.</p>
<b>Cyn Vesalius</b>	<p>Credai meddygon fod llyfrau Galen a meddygon hynafol eraill yn gwbl gywir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth roedd angen arnynt. Felly nid oedd angen dysgu mwy am anatomeg drwy ddyrannu cyrff dynol.</p>
<b>Ar ôl Vesalius</b>	<p>Dangosodd Vesalius fod Galen yn anghywir mewn rhai manylion pwysig o anatomeg. Credai fod hyn oherwydd bod Galen wedi gorfod dibynnu ar ddyrannu anifeiliaid. Dywedodd fod angen i feddygon brofi syniadau Galen yn hytrach na'u derbyn a bod dyrannu cyrff dynol yn hanfodol.</p>

<b>Ambroise Paré</b> <b>C1510-1590</b>	
<b>Gweithredoedd</b>	
<b>Cyn Paré</b>	
<b>Ar ôl Paré</b>	



**William Harvey**  
**1578-1657**



**Gweithredoedd**

**Cyn Harvey**

**Ar ôl Harvey**

Datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; gwell gwybodaeth am ddamcaniaeth germau; Pasteur a Koch.

**Darllenwch t 21 -25** (Newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)

## Louis Pasteur

Llenwch y tabl isod i roi manylion am waith a phwysigrwydd Louis Pasteur

Bywyd cynnar	
Pa broblem oedd yn wynebu'r diwydiant bragu a sut gwnaeth Pasteur ei datrys?	
Beth oedd damcaniaeth ymdarddiad digymell?	
Sut gwnaeth Pasteur wrthbrofi'r ddamcaniaeth ymdarddiad digymell?	
Pa ddamcaniaeth newydd oedd Pasteur yn credu ynddi?	
Sut gwnaeth ef atal y clefyd colera ieir?	
Pa afiechydon eraill y llwyddodd Pasteur i'w hatal?	

## Robert Koch

Darllenwch y ffynonellau canlynol a defnyddiwch nhw i lenwi'r tabl isod sy'n manylu ar waith Koch:

### Ffynhonnell A

"Cyn gynted ag y cafwyd y dull cywir, roedd darganfyddiadau'n dod mor hawdd ag afalau aeddfed yn syrthio o goeden."

[Robert Koch]

### Ffynhonnell B

Dyfeisiodd ddulliau newydd o dyfu meithriniadau pur o facteria ar gyfryngau solet fel tatws, ac ar *agar* a gadwyd yn y math arbennig o ddysgl wastad a ddyfeisiwyd gan ei gydweithiwr Petri, sy'n cael ei defnyddio hyd heddiw. Datblygodd hefyd ddulliau newydd o staenio bacteria a oedd yn eu gwneud yn haws eu gweld ac yn help i'w hadnabod.

[O Ddarlith Gwobr Nobel]

### Ffynhonnell C

Roedd Pasteur yn argyhoeddedig fod microbau yn achosi clefydau mewn pobl ond roedd ei waith ar golera wedi methu. Ni lwyddodd erioed i gysylltu un microb yn uniongyrchol ag afiechyd. Llwyddodd Koch i wneud hyn. Meddyg oedd Koch ac roedd ganddo wybodaeth fanwl am y corff dynol - rhywbeth roedd Pasteur, fel gwyddonydd ymchwil, yn ddiffygiol ynddo. Roedd hefyd yn fedrus mewn arbrofion, canlyniad ei waith yn y gwyddorau naturiol. Rhinweddau eraill a fu'n bwysig oedd ei allu i weithio am gyfnodau hir o amser a'i amynedd. Fodd bynnag, roedd Koch hefyd yn anodd gweithio gydag ef ac ni allai oddef unrhyw un yn dweud wrtho fod ei ddamcaniaethau yn anghywir.....

[Gwefan Hanes, *History Learning Site*]

### Ffynhonnell D

Beth oedd etifeddiaeth Koch? O'r diwedd roedd wedi claddu'r syniad mai 'aer drwg' oedd achos afiechyd. Roedd wedi ysgogi nifer o ymchwilwyr iau eraill i adeiladu ar ei waith. Roedd wedi dod o hyd i germau dau gelfyd yr oedd pobl yn eu hofni'n fawr – anthracis a TB. Roedd wedi datblygu technegau ymchwil y gallai eraill eu defnyddio ledled y byd.

[Gwefan Hanes, *History Learning Site*]

## Ffynhonnell E

Yn ogystal ag arbrofi â gwahanol lifynnau sy'n staenio bacteria a'u gwneud yn fwy gweladwy o dan y microsgop, dyfeisiodd hefyd ddull clyfar o wahanu cymysgedd o facteria. Roedd hyn yn golygu brechu anifail gyda'r bacteria a phasio'r haint wedyn o un anifail i'r llall tan, ar ddiwedd y gadwyn arbrofol, mai dim ond un math o facteriwm oedd ar ôl. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, fe adnabu'r bacteria oedd yn gyfrifol am sawl anhwylder, yn cynnwys septicaemia.

[Gwefan Hanes, *History Learning Site*]

## Ffynhonnell F

Roedd Koch wedi casglu o'i gwmpas dîm o wyddonwyr ymchwil medrus. Roedd Pasteur yn aml yn gweithio ar ei ben ei hun. Sylweddolodd nad dyma'r ffordd ymlaen a chasglodd ef hefyd dîm o wyddonwyr ymchwil o'i gwmpas. Roedd Pasteur bob amser wedi bod yn ddiffygiol o ran gwybodaeth feddygol fanwl. Oherwydd hyn cyflwynodd ddau feddyg ifanc disglair i mewn i'w dîm, sef Emile Roux a Charles Chamberland. Y clefyd cyntaf y gweithiodd y tîm hwn arno oedd colera ieir - clefyd a oedd yn effeithio ar lawer o ffermwyr dofednod.

[Gwefan Hanes, *History Learning Site*]

Ffynhonnell	Beth mae'n dweud wrthy ch chi?
A	
B	
C	
D	
E	
F	




Cwblhewch y tabl canlynol:

<b>Dull sganio</b>	<b>Sut mae'n gweithio</b>	<b>Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?</b>
<b>Uwchsain</b>		
<b>MRI</b>		
<b>PET</b>		
<b>CT</b>		







Darganfod DNA ac ymchwil geneteg yn hwyrach yn yr ugeinfed ganrif

**Darllenwch t 29 -30** (Newidiadau mewn iechyd a meddygaeth)

1. Beth yw geneteg?

---

---

---

---

---

---

---

---

2. Disgrifiwch rôl Rosalind Franklin wrth ddarganfod DNA

---

---

---

---

---


---


---

---









---

---

---

---